# Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru

Diwrnod Tri

gonorthwales.co.uk
llechi.cymru

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

Cadw

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE

**Diwrnod Tri**

Dynodwyd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru, Gwynedd yn Safle Treftadaeth y Byd gan UNESCO yn 2021. Mae'n eiddo â chwe rhan: Dyffryn Ogwen; Chwarel Dinorwig; Dyffryn Nantlle; Gorseddau a Bwlch y Ddwy Elor; Ffestiniog & Porthmadog ac Abergynolwyn & Tywyn, gyda phob un yn cwmpasu chwareli a cheudyllau creiriol, safleoedd archeolegol yn ymwneud â prosesu llechi, aneddiadau hanesyddol, gerddi hanesyddol a plastai mawreddog, porthladdoedd, phlastai a cheiau, a rheilffyrdd a systemau ffyrdd yn yn arddangos cysylltiadau ymarferol a chymdeithasol y tirwedd ddiwydiannol creiriol. Mae'n cynnwys tirweddau chwareli ysblennydd megis Penrhyn, Dinorwig, Dyffryn Nantlle a Ffestiniog. Mae hefyd yn cynnwys yr Amgueddfa Llechi yn Llanberis, Castell Penrhyn a reilffyrdd enwog y Ffestiniog a Thalyllyn, wedi eu hadeiladu i gludo'r llechi o'r chwarel i farchnadoedd ledled y byd a thrawsnewidiwyd y ddau yn ddiweddarach i reilffyrdd treftadaeth.

Mae'r tirwedd yn adrodd stori anhygoel esblygiad cymdeithas amaethyddol yr ucheldir i un sy'n cael ei ddominyddu gan y diwydiant llechi; gyda threfi, chwareli a chysylltiadau trafnidiaeth yn cerfio eu ffordd drwy fynyddoedd Eryri i lawr tuag at y porthladdoedd eiconig.

I ddysgu mwy am y tirwedd llechi fedrwch ddilyn ein teithlen 3 diwrnod i ymchwilio i ddyfnder hanes neu ddewis a dethol diwrnodau unigol i brofi antur unigryw a chyffrous.

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

19 **Portmeirion** - Yn swatio rhwng aber yr Afon Ddwyryd a mynyddoedd mawreddog Eryri, mae pentref Portmeirion yn gyrchfan pentref a gerddi preifat, wedi'u gosod ar ei benrhyn ei hun gyda golygfeydd i bob cyfeiriad a llwybrau di-ben-draw i'w harchwilio, cewch eich cludo i mewn i fyd breuddwydiol, yn llawn syndod.


20 **Rheilffordd Ffestiniog** - Adeiladwyd yn wreiddiol i wasanaethu diwydiant llechi Blaenau Ffestiniog, arferai'r llinell hon gael ei gweithredu gan ddisgyrchiant. Teithiau wagenni yn llawn o lechi i lawr y lein, yn cael eu cadw dan reolaeth gan ddynion brêcs a oedd yn neidio o wagen i wagen i dynhau neu llacio'r brêcs tra bod eu cydweithiwr ar y wagen flaen yn chwythu ei gorn i rybuddio eraill o'i hynt. Mae Blaenau Ffestiniog, yn mhen y dyffryn yn dal i ddwyn creithiau ei orffennol diwydiannol gyda thomenni llechi o'i amgylch.

21 Saif **Gwesty'r Oakeley Arms** yn dawel, yn falch ac yn odidog, ond cloddiwch ychydig yn ddyfnach a byddwch yn dod o hyd i hanes diwydiannol swnllyd a dinistriol, un a ddiffiniwyd gan aur llwyd Cymru y Llechen Gymreig gwerthfawr. Mae'r Gwesty'n cynnig bwyd Cymreig traddodiadol wedi'i wneud gyda cynnyrch lleol a thymhorol lle bo modd.

22 Taith **Ceudyllau Dwfn Llechwedd** - Cymrwch gam yn ôl i'r 19eg ganrif wrth i chi gael eich boddi 500 troedfedd i mewn i daith hanes cyfoethog y Mwynglawdd Dwfn, lle byddwch chi'n treulio amser yn amsugno popeth sydd i'w wybod am orffennol diddorol Llechwedd. Ewch ymlaen ar y trên tanddaearol ar reilffordd gebl fwyaf serth Ewrop a dysgwch am yr 16 o lefelau mwynglawdd tanddaearol eiconig gan gynnwys lle y caiff caws enwog Llechwedd ei aeddfedu, a'r 8 lefel o dan y dŵr. Byddwch chi'n dysgu popeth am y gwaith a wnaed gan y chwarelwyr gynt. Gwelwch o lygad y ffynnon ble cynhyrchwyd y llechen o safon fyd-eang gan ddynion a bechgyn lleol, a beryglodd eu bywydau bob dydd i ddarparu'r llechen enwog hon i'r byd.

23 **Taith Chwarel Explorer a Titan 2** - Hwn oedd zip line pedwar person cyntaf Ewrop, mae Titan 2 wedi esblygu yn 2021 i ddod yn daith gyffrous a phrofiad sip, sy'n cynnwys 1 cilometr ble mae pedwar person yn ipio ochr yn ochr, tra'n ychwanegu taith fanwl o'r lleoliad hanesyddol hwn i blesio pob oed. Bydd eich ymweliad yn dechrau gyda'r daith ble byddwch yn dringo ar un o hen dryciau eiconig y fyddin. Gan droelli a throi drwy llwybr chwarel Llechwedd, byddwch yn teithio hyd at uchder trawiadol o 1,400 troedfedd, tra'n cymryd i mewn y golygfeydd a'r tirwedd diwydiannol. Mae'r daith yn para 45 munud. Ar ôl archwilio'r ardal gyda melinau chwarel a siediau hollti, byddwch chi'n gwisgo dillad yn barod ar gyfer eich taith ar y linnell zip dwbl. Yn teithio dros 1 cilomedr gyda golygfeydd godidog o'r chwarel isod a Blaenau Ffestiniog gydag Eryri tu hwnt, byddwch yn hedfan yn ôl i lawr i'r ddaear ar eich eistedd - yn well byth ar gyfer mwynhau y golygfeydd panoramig hynny.

24 Mae **Gwesty Plas weunydd** Wedi'i leoli o fewn safle Treftadaeth y Byd UNESCO mwyaf newydd UNESCO, mae Plas Weunydd yn llety bwtîc pedair seren gyda pedair ar hugain o ystafelloedd ffasiynol, bar a bwyty. Ym Mhlas Weunydd, fe welwch ystafell ar gyfer pob achlysur. O ystafelloedd sengl, ystafelloedd teulu rhyng-gysylltiedig a hyd yn oed mannau addas i gŵn, y gwesty yw'r lle perffaith i ymlacio, cael diod ac i gael tamaid i fwyta, tra'n gwylio'r byd yn pasio heibio.



## Diwrnod Tri - Porthmadog - Ffestiniog

Archwiliwch hanes a diwylliant cyfoethog Gogledd Cymru trwy ei diwydiant lechi Cymreig. Taith yn ôl mewn amser i ddysgu am ddyfodiad chwareli a diwylliant bywiog cymunedau, pob un ohonynt wedi llunio tirwedd ôl-ddiwydiannol yr ardal. Dilynwch ein teithlen 3 diwrnod i ymchwilio i ddyfnderoedd hanes neu fe allwch ddewis a dethol diwrnodau unigol i brofi antur unigryw a chyffrous.

### TEITHLEN

Aros dros nos yng Ngwesty'r Celtic Royal, Caernarfon

Gwesty ★★★

**09.00 - 10.00**

Ymweliad o gwmpas Pentref Portmeirion

Sicrwydd Ansawdd

**10.00 - 10.15**

Trosglwyddo i Harbwr Porthmadog

(Sat Nav LL49 9LU)

**10.15 - 10.45**

Ymweliad i Harbwr Porthmadog

**10.45 - 11.55**

Porthmadog – Blaenau Ffestiniog ar Rheilffordd Ffestiniog

(Sat Nav LL49 9NF)

**12.00 - 13.45**

Cinio yng Ngwesty'r Oakeley Arms, Maentwrog

Tafarn ★★★ (Sat Nav LL41 3YU)

**13.45 - 14.00**

Trosglwyddo i Llechwedd Zip World

(Sat Nav LL32 8LX)

**14.00 - 15.30**

Ceudyllau Llechi Llechwedd

Sicrwydd Ansawdd

**15.30 - 17.30**

Quarry Explorer a Titan 2

(i'r rhai nad ydynt yn dymuno gwneud y Zip Wire, fe all gwesteion aros yn y gwersyll a chael pori drwy'r siop anrhegion ac edrych o gwmpas y safle.

Sicrwydd Ansawdd

**Dros Nos**

Gwesty Plas Weunydd, Blaenau Ffestiniog

Gwesty ★★★★

Cinio Nos yn y Gwesty

Neu llety arall **Gwesty'r Royal Sportsman, Porthmadog**

Gwesty ★★★★ (Sat Nav L49 9HB)













I archebu cysylltwch a
**croeso@gonorthwales.org.uk**
neu **01492 531731**

go north wales
www.gonorthwales.co.uk

Cadw

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

SAFLE TREFTADAETH Y BYD
Llechi Cymru
Wales Slate
WORLD HERITAGE SITE